# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYNGHORI’R CABINET AR DIWYGIO GOFAL CYMDEITHASOL AC ATALIAETH

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 16 IONAWR 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu’r Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| J C Bayliss | E J King | E T Kirchner |
| R V Smith | T M White | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd M C Child    Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Fiona Broxton | Swyddog Contractio'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Gofal Cartref) |
| Lucy Friday | Rheolwr Trawsnewid (Gwasanaethau i Oedolion) |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mary Wilson | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Debra Morgan | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Dr Nina Williams | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: U C Clay a J P Curtice

42 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

43 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2016 ac 19 Rhagfyr 2016 fel cofnodion cywir.

44 **CYFLWYNIAD - IECHYD A DEIET YN ABERTAWE.**

Cafwyd cyflwyniad am 'Ymagweddau Cymunedol at Gefnogi Bwydydd a Diodydd Iachus' gan Mary Wilson, Dr Nina Williams a Debra Morgan o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r swyddogion cyflwyno, a ymatebodd yn briodol. Roedd cwestiynau'n seiliedig ar: -

- Y posibilrwydd o gyfyngiadau cynllunio y tu allan i ysgolion;
- Cymhariaeth a thuedd ystadegau o ran nifer y plant ac oedolion sydd dros bwysau/yn ordew, a nifer y plant sy'n dangos tystiolaeth o bydredd deintiol.
- A ddylai'r prif ffocws fod ar siwgr o ran gwella iechyd a deiet, gan fod cyngor iechyd yn y gorffennol wedi canolbwyntio ar fraster;
- Roedd addysg am iechyd a deiet mewn ysgolion wedi gweithio'n dda, ond roedd problemau o ran ymwybyddiaeth rhieni;
- Sut i annog rhieni i gymryd rhan mewn mentrau ac ymateb i gyngor;
- Y posibilrwydd a'r teilyngdod o fod yn fwy llym gyda rhieni sy'n rhoi bwyd afiach i'w plant yn gyson;
- Cydlynu blaenoriaethau sefydledig;
- Y posibilrwydd o ehangu cwricwla ysgolion i gynnwys gweithgareddau a dysgu sy'n gysylltiedig â thyfu eich llysiau eich hun;
- Opsiynau afiach y mae'n hawdd dod o hyd iddynt a'u paratoi;
- Hyrwyddo mentrau presennol yn well.

Amlygwyd bod addysgu pobl am sut i wneud y dewisiadau iawn yn rhywbeth i'w wneud ar wahân. Prif ffocws y cyflwyniad hwn oedd darganfod ffyrdd o wella a chefnogi cymunedau er mwyn iddynt gael mynediad i'r dewisiadau iawn.

Gofynnodd y Cynghorydd M C Child, Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach, i'r pwyllgor ystyried ai siwgr oedd y mater deietegol yr oedd am ganolbwyntio arno, gan ofyn am awgrymiadau o ran sut i'w gyflwyno.

**PENDERFYNWYD**

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad llafar;
2) Y bydd y pwyllgor yn ystyried y cwestiynau a holwyd gan Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach.

## 45 CYFLWYNIAD - ADBORTH AR YR YMWELIAD Â CHYNGOR SIR FYNWY.

Rhoddwyd cyflwyniad am 'Adborth o'r Ymweliad â Chyngor Sir Fynwy' gan Fiona Broxton, Swyddog Contractio'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Gofal Cartref) a Lucy Friday, Rheolwr Trawsnewid (Gwasanaethau i Oedolion).

Roedd cwestiynau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Cartref gan AGGCC
- Cyfraddau darparwyr
- Gwell cefnogaeth a phartneriaethau â staff
- Siarter Gofal Cymdeithasol
- Hyrwyddo Gweithgaredd Abertawe'n well
- Ymgynghori â'r undebau

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y cyflwyniad.

## 46 Y DIWEDDARAF AM ADOLYGIADAU COMISIYNU. (LLAFAR)

Rhoddwyd y diweddaraf gan Swyddog Contractau’r Gwasanaethau Cymdeithasol (Gofal Cartref) i’r pwyllgor ar Adolygiadau Comisiynu’r Gwasanaethau i Oedolion.

Dywedodd y cynhelir yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref tan 10 Chwefror 2017. Ni chafwyd llawer o ymateb i’r ymgynghoriad gan weithwyr gofal cartref a byddai’n edrych ar ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol posib i geisio cynyddu ymwybyddiaeth i wella’r ymateb.

Ychwanegodd mai un o’r opsiynau a ffefrir oedd comisiynu gofal cartref yn ddaearyddol a bod gwelliannau wrth gasglu data perfformiad ac adrodd arno’n rhoi gwell gwybodaeth am y galw a’r angen mewn ardaloedd penodol yn Abertawe.

Trafododd hefyd ddefnyddio Lot blaengar fel rhan o ymarfer caffael yn y dyfodol i gysylltu â phartneriaid allanol ar dreialu ffyrdd newydd o weithio, ac os byddant yn llwyddiannus gellid eu datblygu/eu cyflwyno mewn ardaloedd eraill yn Abertawe.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi cynnwys y diweddaraf.

## 47 RHAGLEN WAITH 2016/17

Cyflwynodd y cadeirydd yr adroddiad am Raglen Waith 2016 – 2017.

**PENDERFYNWYD**: -

1) Trefnu cyfarfod anffurfiol er mwyn trafod gofalwyr;
2) CCTV - ychwanegu cyfarfod ar y cyd â Phwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu i'r Rhaglen Waith;
3) Ychwanegu'r diweddaraf am yr Adolygiad Gofal Cartref i'r Rhaglen Waith ar gyfer mis Mawrth 2017.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.18 pm

**CADEIRYDD**